

## HERBERT, REGINALD (1841 - 1929), Clytha gerllaw y Fenni, sir Fynwy, 'sportsman' a marchogwr ceffylau hela a cheffylau rasio

**Enw:** Reginald Herbert  
**Dyddiad geni:** 1841  
**Dyddiad marw:** 1929  
**Rhiant:** Frances Herbert (née Huddleston)  
**Rhyant:** William Herbert  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** 'sportsman' a marchogwr ceffylau hela a cheffylau rasio  
**Cartref:** Clytha  
**Maes gweithgaredd:** Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden  
**Awdur:** Herbert John Lloyd-Johnes

Ganwyd 14 Chwefror 1841, mab hynaf William Herbert, D.L., Clytha, a Frances, merch Edward Huddleston, Sawston Hall, sir Caergrawnt. Addysgwyd ef yn breifat ac yn Ffrainc ac yna ymunodd â'r Royal Gloucestershire Hussars. Cymerodd yr enw Huddleston yn ychwanegol pan etifeddodd stad Sawston Hall, 1920-1. Dechreuodd ymddiddori mewn ceffylau rasio yn gynnar yn ei oes a daeth i'w gydnabod ymhlith goreuon marchogwyr ceffylau. O 1864 ymlaen enillodd amryw droeon mewn rاسus a gynhelid yng ngorllewin Lloegr, gan gynnwys y Cheltenham Grand Annual. Y mae iddo enwogrwydd ym myd 'sport' am ei fod yn un o'r rhai cyntaf i gyflwyno gêm 'Polo' i Brydain. Yr oedd yn aelod sylfaenol o'r Hurlingham Club, ac efe oedd i raddau helaeth yn gyfrifol am sefydlu Ranelagh, sefydliad y bu'n gysylltiol ag ef am 16 mlynedd. Bu'n feistr y Monmouthshire Fox Hounds am 17 mlynedd; yr oedd hefyd yn nodedig fel saethwr colommenod - enillodd lawer o wobrwyon am hyn yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor. Cymerai ddiddordeb hefyd mewn gyrru coetsus ac mewn sgwlio. Cyhoeddodd, 1908, *When Diamonds were Trumps* - llyfr yn rhoddi cryn dipyn o hanes ei fywyd fel 'sport' ac a gyfrifir ymhlith clasuron llenyddiaeth y bywyd hwnnw. Yr oedd yn un o ddirprwy-raglawiaid sir Fynwy. Bu farw 16 Hydref 1929.

### Awdur

**Major Herbert John Lloyd-Johnes**, (1900 - 1983)

### Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

### Darllen Pellach

*Genealogical memoranda relating to the families of Herbert & Hall*(1896)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734701

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>



Arddull APA



Lloyd-Johnes, H. J., (1953). HERBERT, REGINALD (1841 - 1929), Clytha gerllaw y Fenni, sir Fynwy, 'sportsman' a marchogwr ceffylau hela a cheffylau rasio. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HERB-REG-1841>

Clippio!r

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Modur gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government